

## Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2021

### Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor a'i Gyd-bwyllgorau 2020-21</b>	Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.	Mehefin 2021 hyd at fis Hydref 2021	Derbyniwyd y datganiadau ariannol ar 28 Mai 2021 ac mae'r gwaith maes archwilio bron â'i gwblhau.
<b>Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd</b>		Medi 2021 hyd at fis Tachwedd 2021	Derbyniwyd Datganiadau Ariannol ar 16 Mehefin 2021. Mae'r gwaith archwilio wedi dechrau.

### Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn</b>	Prosiect sy'n gyffredin i gynghorau y gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal cartref preswyl a nyrsio yn strategol.	Hydref 2021	Cyhoeddwyd yr ail ddrafft ar 27 Medi. Bydd yr adroddiad lleol terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021.

<b>Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21</b>	<b>Cwmpas</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Statws</b>
<b>Cynaliadwyedd Ariannol</b>	Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20.	Cwblhau	Cyhoeddwyd yr adroddiad lleol terfynol.  Cyhoeddwyd Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Medi 2021.
<b>Ffordd Gwynedd</b>	Adolygiad lefel uchel o weithrediad Ffordd Gwynedd yn ystyried cysyniadau, diwylliant a rhwystrau.	Hydref 2020 i Ionawr 2021	Anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr.
<b>Crynodeb Archwilio Blynyddol</b>	Adroddiad blynyddol yn crynhoi'r gwaith archwilio perfformiad ac ariannol a wnaed yn 2020-21, sydd hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol'. Hefyd bellach wedi'i gyfuno â'r Llythyr Archwilio Blynyddol.	Tachwedd/Rhagfyr 2021	Heb ddechrau eto.

2021-22 Gwaith archwilio perfformiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD)</b>	<p>Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LICD o gamau i gyflawni amcanion llesiant gyda'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.</p>	Amh	Amh
<b>Archwiliad adrodd ar welliannau</b>	<p>Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.</p>	Gorffennaf 2021	Tystysgrif wedi'i gwblhau.
<b>Sicrwydd ac Asesu Risg</b>	<p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran risgiau i'r Cyngor gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.</p> <p>Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefyllfa ariannol</li> <li>• Trefniadau hunanasesu</li> <li>• Cynllunio adferiad</li> <li>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)</li> <li>• Cynlluniau lleihau carbon</li> </ul>	Mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022	Parhaus – trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gyflwyno ein canfyddiadau yn y flwyddyn newydd.

2021-22 Gwaith archwilio perfformiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy</b>	Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.	Hydref 2021- Mawrth 2022	Trefniadau gwaith maes yn cael eu gwneud.
<b>Adolygiad o Reoli Perfformiad</b>	Adolygu'r ffordd y mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan alw.	Awst i Tachwedd 2021	Gwaith maes ar y gweill.
<b>Crynodeb Archwilio Blynyddol</b>	Adroddiad blynyddol yn crynhoi'r gwaith archwilio perfformiad ac ariannol a wnaed yn 2021-22, sydd hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol'. Hefyd wedi'i gyfuno â'r Llythyr Archwilio Blynyddol.	Hydref 2022	Heb ddechrau eto.

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio / ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
<b>Taliadau Uniongyrchol</b>	Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol	Cyhoeddi - Gaeaf 2021-22	Dod i gasgliadau ganol Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a chyfres o gyfweiliadau dilynol
<b>Gwasanaethau Brys</b>	Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio	Cyhoeddi - gaeaf 2021-22	Drafftio adroddiad	Na
<b>Gwaith dilynol ar Bobl yn Cysgu Allan</b>	Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020	I'w gadarnhau	Sefydlu prosiect	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Digartrefedd a Chefnogi Pobl
<b>Tlodi</b>	Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi ei gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
<b>Mentrau Cymdeithasol</b>	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi'i gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau
<b>Cydnherthedd Cymunedol</b>	Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnherthedd mewn cymunedau	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi'i gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau

## Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Gweithiodd Estyn yn agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllawiau diwygiedig (a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar adeg yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen rhagor o fireinio.	Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol i ailddechrau o ddiwedd tymor yr Hydref	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Cymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref - cyhoeddi ddechrau mis Chwefror	Amherthnasol

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Sicrwydd</b>	Bydd AGC yn cwblhau ei waith ar Wiriadau Sicrwydd gan gynnwys cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol.	Gorffennaf – Medi 2021	Ar y gweill
<b>Adolygiad cenedlaethol</b>	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	I'w gadarnhau	Ar y gweill – Drafftio adroddiad
<b>Gwaith dilynol</b>	Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.	I'w gadarnhau	Heb ddechrau eto
<b>Arolygiad</b>	Bydd gweithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.	I'w gadarnhau	Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd



## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	<a href="#">Medi 2021</a>
Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG	<a href="#">Medi 2021</a>
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus <sup>1</sup>	<a href="#">Medi 2021</a>
Adfywio Canol Trefi	<a href="#">Medi 2021</a>
Cyllid myfyrwyr	<a href="#">Awst 2021</a>
Offeryn data cyllid y GIG 2020-21	<a href="#">Mehefin 2021</a>
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	<a href="#">Mehefin 2021</a>
Trefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol	<a href="#">Mai 2021</a>
Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	<a href="#">Mai 2021</a>
Yn Ôl Eich Doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	<a href="#">Ebrill 2021</a>

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. I'w ddilyn dros y pedair i chwe wythnos ganlynol gan sylwadau byr y sector: Darlun o lywodraeth leol, Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
<b>Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19</b>	<u>Ebrill 2021</u>

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru sydd i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo / a gynlluniwyd)<sup>2</sup>

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
<b>Cefnogi lles staff y GIG</b>	Hydref 2021
<b>Rhaglen Cartrefi Cynnes</b>	Tachwedd 2021
<b>Comisiynu cartrefi gofal</b>	Tachwedd 2021
<b>Sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru</b>	Tachwedd 2021
<b>Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwadau</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwadau ar ofal wedi'i gynllunio</b>	Erbyn diwedd 2021

<sup>2</sup> Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym meysydd polisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
<b>Amcanion llesiant a bennir gan Lywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gweithlu Llywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gwasanaethau orthopedig</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Diwygio'r cwricwlwm</b>	Gwanwyn 2022
<b>Asesiad effaith ar gydraddoldeb</b>	Gwanwyn 2022
<b>Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol</b>	Gwanwyn/haf 2022
<b>Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru</b>	I'w gadarnhau
<b>Sylwadau cryno ar asesiad strwythuredig y GIG 2021</b>	I'w gadarnhau
<b>Tai fforddiadwy</b>	I'w gadarnhau
<b>Seilwaith band eang</b>	I'w gadarnhau
<b>Rheoli perygl llifogydd</b>	I'w gadarnhau

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau Cyfnewid Arfer Da sydd ar ddod

Teitl	Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwylidig
<b>Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad adfywio canol tref Rhan 2 Eich Tref Eich Dyfodol a sesiwn cinio a dysgu Gweithle'r Dyfodol gyda Dr Luci Attala a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>	Dechrau Hydref 2021
<b>Sgyrsiau Trawsatlantig, Cymru a Nova Scotia – trafod Tai</b>	28 Hydref 2021 (3pm)
<b>Cydnherthedd Sefydliadol</b>	Rhagfyr 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)